Enw _____

**DARLLENWCH**
Mathew 1: 18-25

**ADNOD ALLWEDDOL**
Mathew 1: 21

# Gwers 2 Stori'r Nadolig – Negesydd Duw

Mae'r Nadolig yn adeg o ryfeddodau. Dyna eiliad arbennig yw honno pan fyddwch chi'n darganfod beth sydd yn y parsel mawr, anarferol 'na! Neu efallai y daw eich mam-gu (nain) a'ch tad-cu (taid) heibio'n ddirybudd!
Un tro, cafodd dyn o'r enw Joseff dipyn o syndod hefyd; yn wir cafodd DDWY sioc go annisgwyl! Yn gyntaf, canfu fod y ferch roedd e'n mynd i'w phriodi yn disgwyl babi. Doedd e ddim yn deall sut roedd hynny'n bosibl oherwydd doedden nhw ddim yn byw gyda'i gilydd!

**C Pa adnod sy'n dweud wrthym iddo ystyried torri'r dyweddïad heb ddweud dim wrth neb?**

Adnod _____

Eto, hyd yn oed tra'r oedd e'n meddwl am hyn, cafodd sioc arall! Ymddangosodd angel, negesydd Duw, o'i flaen a dechrau siarad ag ef

**C Beth ddywedodd yr angel wrth Joseff? Rhowch neu groes wrth ymyl pob un o'r brawddegau canlynol i ddangos a yw'n gywir neu'n anghywir.**

Mab Daniel oedd Joseff. ☐

Beichiogodd Mair drwy nerth yr Ysbryd Glan. ☐

Byddai Mair yn geni bachgen. ☐

Rhaid galw'r plentyn yn Iesu. ☐

4

**C Edrychwch ar adnod 22 ac ysgrifennwch un frawddeg i esbonio pam fod hyn i gyd yn digwydd.**

_____

1

Dyna beth rhyfeddol fod addewid Duw, a roddwyd lawer canrif ynghynt gan Eseia, bellach wedi ei gwireddu! (Gweler Gwers 1, Eseia 7: 14)

**C Ysgrifennwch y rhan honno o'r Adnod Allweddol sy'n dweud wrthym pam y daeth yr Arglwydd Iesu i'r byd.**

_____
_____
_____

2

**C** **Rhowch gylch o gwmpas ystyr cywir yr enw 'IMMANUEL'.**

Mab Duw  Baban Sanctaidd  Duw gyda ni

1

Gadewch i ni fyth anghofio fod yr Un a alwyd yn 'Immanuel' yn fwy na dim ond bachgen bach. Ef oedd sanctaidd Fab Duw a ddaeth i lawr o'r Nefoedd i fod yn Waredwr i ni. Dyna pam fod Ei ddyfodiad i'r byd yn beth mor wyrthiol. Pe bai'r Arglwydd Iesu yn ddim mwy na mab Mair a Joseff ac nid yn Fab Duw, byddai wedi bod yn bechadur fel ni ac ni fyddai Ef fyth wedi gallu marw i'n hachub rhag ein pechodau. Roedd yr Arglwydd Iesu yn unigryw! Mair oedd Ei fam, ond Duw oedd Ei Dad!

**C** **Beth ddigwyddodd wedi i negesydd Duw adael Joseff? Dim ond tair o'r brawddegau hyn sy'n wir.**

**Gosodwch nhw yn y drefn gywir, 1, 2, 3.**

Deffrodd Joseff. ☐

Galwodd Joseff y bachgen yn Iesu. ☐

Dechreuodd Joseff gwestiynu Duw. ☐

Syrthiodd Joseff i gysgu. ☐

Ysgarodd Joseff Mair. ☐

Priododd Joseff â Mair. ☐

3

Doedd tasg Joseff ddim yn hawdd, ond fel Mair, roedd e'n ymddiried yn Nuw, a gadawodd bopeth yn Ei ddwylo Ef. Os ydym yn caru'r Arglwydd Iesu ac os ydym yn ddilynwyr Iddo, yna rhaid i ninnau hefyd ymddiried yn Nuw ac ufuddhau i'w Air.

**Rhowch gynnig ar y CROESAIR hwn er mwyn dysgu prif ffeithiau'r wers unwaith eto.**

**Ar Draws**

3. Beichiogodd Mair drwy nerth yr ..... ..... (dau air)
6. Enw'r wyryf.
8. ..... yr Arglwydd oedd negesydd Duw.




**I Lawr**

1. Cafodd Ei eni i achub Ei bobl rhag eu ..... .
2. Enw'r dyn a ufuddhaodd i orchymyn Duw.
4. Ystyr yr enw hwn yw 'Duw gyda ni'.
5. Dywedodd Duw wrtho am y wyrth hon mewn ..... .
7. Enw mab cyntaf-anedig y wyryf.

8